



Cyngor Cymuned Llandwrog
Community Council

Cofnodion Cyfarfod y Cyngor
Council Minutes

16 Gorffennaf 2018 / 18 July 2018

Cyngor Cymuned Llandwrog Community Council

Cofnodion y cyfarfod o Gyngor Cymuned Llandwrog a gynhaliwyd Nos Lun, 16 Gorffennaf 2018 yn Neuadd Pentref Carmel.

Minutes of the Full Council Meeting held Monday evening, 16th of July 2018 at Carmel Village Hall

Yn bresennol / Present - 8 aelod / members

Yn cynrychioli Ward y Fron – *Representing the Ward of Fron*
Cyng. Gwyn Owen Jones

Yn cynrychioli Ward Carmel – *Representing the Ward of Carmel*
Cyng. Alan Patterson;

Yn cynrychioli Ward Y Groeslon – *Representing the Ward of Y Groeslon*
Cyng. Alun Wyn Jones; Cllr. Eddie Willcox; Cyng. David C Davies; Cyng Gerwyn Owen

Yn cynrychioli Ward Llandwrog a Dinas Dinlle - *Representing the Ward of Llandwrog & Dinas Dinlle*
Cyng. Clive Bayley; Cyng. Dyfed Williams

Hefyd yn bresennol / *Also in Attendance-*

David Roberts, Clerc y Cyngor / *Council Clerk*

Huw Roberts , Cyfieithydd / *Translator*

Amanda Jane Murray, Swyddog Prosiect, Cyngor Gwynedd - eitem 4 yn unig

Bethan Roberts, Swyddog Prosiect, Cyngor Gwynedd - eitem 4 yn unig

Cyng. Dilwyn Lloyd – Cynghorydd Sir dros Carmel a Fron – cyrhaeddodd am 8 o'r gloch

a

18-07-01 **1 Croeso'r Cadeirydd / *Chairman's Welcome***

Agorwyd y cyfarfod gan Cadeirydd y Cyngor sef Cyng. Gwyn Owen Jones.

Diolchodd i bawb oedd yn bresennol am fynychu. Croesawodd Swyddogion Cyngor Gwynedd oedd wedi erbyn gwahoddiad I drafod toiled y Marine. Croesawodd Huw Roberts y cyfieuthydd. Gofynnodd i pob aelod i gadw at y pwnc ac i siarad trwy'r gader.

Aeth yn syth at y rhaglen.

The meeting was opened by the Chairman, Cllr.Gwyn Owen Jones. He welcomed all I particular Amanda Murray and Bethan Hughes from Gwynedd Council who accepted he Council's invitation to discuss the Marine toilet at Dinas Dinlle. He also welcomed Huw Roberts, the translator.

18-07-02 **2 Ymddiheuriadau am Absenoldeb / *Apologies for Absences***

Cyng. Hywel J Owen; Cyng. Bryn Williams

18-07-03 **3 Datgan Buddiant Personol Neu Fuddiant sydd yn Rhagfarnu gan Aelodau ar y Unrhyw Eitem ar y Rhaglen – Adran 51 Deddf Llywodraeth Lleol 2000 – *To Receive disclosures of Personal and Prejudicial Interest by Members on any Items on the Agenda - Section 51 Local Government Act 2000***

Cyng. Alan Patterson – eitem 18-07-30. Cais cynllunio gan aelod o'r teulu
David Roberts, Clerc – Eitem Panel Gwaith y Clerc

4 Toiled Y Marine, Dinas Dinlle / The Marine Toilet Dinas Dinlle

Croesawyd Amanda Murray a Bethan Hughes, Swyddogion Prosiect gyda Chyngor Gwynedd i'r cyfarfod gan y Cadeirydd. 'Roedd y swyddogion yma ar gais y Cyngor hwn i drafod dyfodol toiled y Marine, Dinas Dinlle. Eglurodd y Cadeirydd fod y Cyngor Cymuned wedi cytuno, 'nol yn 2016, i ymuno mewn partneriaeth gyda Chyngor Gwynedd i sicrhau fod y toiled yn cadw ar agor. Y bygythiad oedd y byddai'r toiled yn cau heb gyfraniad y Cyngor Cymuned. 'Roedd y cytundeb yn parhau am ddwy flynedd sef 2017-18 a 2018-19 gyda'r Cyngor Cymuned yn cyfrannu £4,000 yn flynyddol.

Gofynnodd y Cadeirydd i'r swyddogion felly am ddiweddariad ac i egluro i aelodau'r Cyngor beth yw'r opsiynau sydd gan y Cyngor ar gyfer 2019-20 a thu hwnt.

AMJ –

- Cynllun partneriaeth dwy flynedd yn wreiddiol
- Rhai Cynghorau Cymuned a Thref wedi penderfynu ymuno mewn partneriaeth, eraill wedi cymryd meddiant yn gyfan gwbl o doiledau
- Opsiynau ar gyfer 2019-20 -
 - parhau gyda'r trefniadau presennol - sef cyfrannu £4,000 yn flynyddol am gyfnod amhenodol
 - i'r Cyngor Cymuned cymryd meddiant o'r toiled - gan sylweddoli y bydd cyfrifoldeb staff yn trosglwyddo i'r Cyngor Cymuned oherwydd rheoliadau TUPE
 - Cyd weithio - Cyngor Cymuned i gymryd meddiant o'r adnodd ond gyda Chyngor Gwynedd yn parhau i gyflogi'r glanhawyr ac yn bilio'r Cyngor Cymuned am gostau. Yn disgwyl cadarnhad gan yr Adran Gyfreithiol o'r trefniant hwn fodd bynnag

Sylwadau Aelodau

GOJ – oes bwriad gan CG i adolygu'r cyfraniad blynyddol o £4,000i'r dyfodol?

AMJ – na dim bwriad ei adolygu

AP – pam nad ydi CG wedi ystyried gosod peiriant yn y drws i godi ffi am ddefnydd?

AMJ - dim cyllideb gan CG i roi drysau newydd i mewn. CG yn gwneud colled ariannol gan fod cost casglu'r arian yn uchel. Am ymchwilio o beth ydi'r oblygiadau o osod bocs ar y drws. Wrth gwrs cyfrifoldeb y Cyngor Cymuned fyddai casglu'r incwm.

DW - toiled yn adnodd pwysig i'r gymuned - beth yw'r tebygolrwydd I Cynor Gwynedd dynu'r plwg ar y trefniant presennol?

AMJ - mae yn ofyn statudol gan Lywodraeth Cymru ar bob Cyngor Sir i lunio Strategaeth Toiledau i'r dyfodol ac adnabod yr angen. Bydd rhaid ei gyhoeddi ymhen blwyddyn. Felly yn annhebygol iawn i CG beidio cynnig gwasanaeth toiled yn Dinas Dinlle.

DW - yn nodi mai'r canran fwyaf o ddefnyddwyr y toiled yw pobol leol nid ymwelwyr. Ymwelwyr i'r traeth yn dueddol o fod yn aros yn y meysydd carafanau lleol sydd gyda thoiledau ar y safleoedd. Adnodd pwysig i'r gymuned ac i'r faner las

DCD- yn gofyn i'r swyddogion beth yw'r elw sydd yn bosib trwy godi ffi? Oes syniad beth yw'r incwm blynyddol?

AMJ - dim gwybodaeth bendant - gellir gwneud ymholiadau.

EW - Dinas Dinlle yn denu pobol o gymunedau Arfon cyfan. Angen ystyried cyfraniad gan bob Cyngor Cymuned yn Arfon.

Aelodau yn erbyn y syniad hwn ac wedi ei drafod yn y gorffennol. Tydi Cyngor Tref Caernarfon ddim yn gofyn i Gyngor Llandwrog gyfrannu at ddefnydd toiledau'r dref er enghraifft

GOJ - beth yw cost bresennol rhedeg y toiled?

AMJ - £17,890 yn 2017-18. Cyfraniad o £4,000 gan y Cyngor Cymuned yn golygu cost net i Gyngor Gwynedd o £13,890

Cost uchod yn cynnwys £15,443 ar gyfer glanhau'r toiled. Ddim yn cynnwys costau gorbenion y Cyngor (cost swyddogion, gweinyddiaeth canolog a chostau rhedeg y swyddfeydd)

EW - wedi anfon Cais Rhyddid Gwybodaeth i CG yn y gorffennol ac wedi ei syfrdanu fod cost glanhau toiledau tref Caernarfon yn £100,000 y flwyddyn.
AMJ - cost yn uchel gan fod yna ofalwr llawn amser
EW - ond yn costio £100,000? Yn awgrymu y dylid CG ystyried gau'r toiled am gyfnod o 5 mis yn y Gaeaf fel bod oblygiadau TUPE i'r dyfodol yn llai o fwrden petai'r Cyngor Cymuned yn cymryd drosodd yr ased

CB - Ased pwysig i'r gymuned. Neb am weld y toiled yn cau.

Diolchodd y Cadeirydd i'r Swyddogion am ddod i'r cyfarfod ac egluro i'r Cyngor beth oedd yr opsiynau. Cyngor Sir a'r Cyngor Cymuned am sylweddoli fod y toiled yn adnodd pwysig i'r gymuned ac i ymwelwyr. Bydd y Cyngor Cymuned yn ystyried yr opsiynau wrth sefydlu cyllideb 2019-20 yn ystod tymor yr Hydref.

18-07-05 **5 Derbyn Cofnodion y Cyfarfod Blaenorol a gynhaliwyd 18 Mehefin 2018 fel Rhai Cywir / To Confirm the Minutes of the Previous Meeting held on the 18 June 2018 as a True Record**

Awdurdodwyd y Cadeirydd gan y Cyngor i arwyddo'r cofnodion fel rhai cywir.
The Council authorised the Chairman to sign the minutes as a true record.

18-07-06 **6 Materion yn Codi o'r Cofnodion / Matters Arising from the Minutes**

18-07-07 **Gwasanaeth Bws 1F ac 1M / 1F & 1M Bus Services**

Adroddwyd gan EW fod aelodau o'r gymuned cwyno and yw bws 9 y bore i Penygroes wedi cychwyn.

Gofynnwyd i'r Clerc ddilyn y mater i fynu.

Gwnaed sylw pellach gan EW nad yw Cyngor Gwynedd wedi hysbysebu'r amserlen newydd. Defnyddiwyd y gwasanaeth ddim yn gwybod am y newidiadau. Yn gofyn y cwestiwn pam and yw Adran y Wasg CG yn cyhoeddi'r wybodaeth?

***Penderfynwyd cysylltu gyda Cyngor Gwynedd gyda'r pryderon uchod.
Resolved to contact Gwynedd Council with the concerns raised.***

18-07-08 **Cofebfeini Rhyfel Byd 1af Brynrhos a Bryn'rodyn / Memorial Headstone Bryn'rodyn & Bryn'rhos Chapels, Groeslon**

Clerc wedi cysylltu gyda Cwmni Inigo Jones ac yn disgwyl pris am y gwaith dynnu'r cofebfeini o'r capeli, i'w glanhau, i'w storio ac i'w ail-leoli yn Neuadd Pentref Groeslon

***Penderfynwyd derbyn y wybodaeth ond angen cyflawni'r gwaith cyn i'r capeli gau
Resolved- to note the information received whilst also accepting that the work needs to be carried out before both chapels close.***

18-07-09 **Cae Pel-droed Carmel / Carmel Football Field**

Adroddwyd gan y Clerc fod arwydd wedi ei osod ar y polyn ger Wenallt yn dynodi fod y cae chwarae ar gael i'r gymuned. Perchennog Tŷ Fry wedi gwrthod gosod arwydd ar y fynedfa i'r cae o'r stryd.

Clerc am drefnu fod yr arwydd yn cael ei osod ar y giât.

Cwynion fod cwn yn baeddu ar y cae. Perchnogion cwn yn gadel i'w cwn redeg yn y cae yn hwyr y nos. Perchennog yr ysgol yn defnyddio giât iard yr ysgol fel mynedfa i'r cae chwarae. Cyngor

eisoes wedi derbyn cwyn fod ci perchennog yr ysgol wedi brathu plentyn yn y cae ac ar ddallt fod yr heddlu wedi derbyn cwyn am yr achos.

Penderfynwyd ar y canlynol-

- i) Fod y Clerc yn cysylltu gyda Peter Simpson o Gyngor Gwynedd gan ofyn iddo drefnu ymweliad rheolaidd o'r safle gan y Warden Cwn.*
- ii) Fod y Clerc yn trefnu arwyddion DIM CWN ar y mynedfeydd*
- iii) Fod y Clerc yn gofyn i Adran Eiddo Cyngor Gwynedd os oes gan berchennog yr ysgol hawl mynediad i'r cae o'r iard fel amod yn y gwerthiant.*
- iv) Fod y Clerc yn cysylltu gyda Chyfreithiwr y Cyngor i geisio ei farn os nad oes ymateb cadarn yn dod o iii) uchod*
- v) Fod y Clerc yn trefnu gosod ffens dros dro i rwystro mynediad o'r iard i'r cae os nad oes gan y perchennog hawl cyfreithiol i ddefnyddio'r adwy fel mynediad.*
- vi) Fod rhaid i'r Cyngor ystyried cau'r mynediad yn barhaol ac ychwanegu'r gwaith i'r Rhestr Blaenoriaethau Gwariant y Cyngor*

Resolved-

- i) For the Clerk to contact Peter Simpson of the Environment Department of Gwynedd Council and to ask him arrange for the Dog Warden to visit the area on a regular basis.*
- ii) For the Clerk to arrange NO DOGS ALLOWED signs on the entrances*
- iii) For the Clerk to ask the Propert Department of Gwynedd Council to ascertain if the owner of the school has a legal right of way from the school yard to the football field.*
- iv) For the Clerk to contact the Council's Solicitor to seek his advice if no response is received from iii) above*
- v) For the Clerk to arrange a temporary fence to block the entrance from the yard to the field if the owener of the school has no legal right of way.*
- vi) For the Council to consider closing the entrance permanently and to include the work in the Council's Priority Spending List.*

18-07-10

Llwybr 47 Y Fron - trwy Chwarel Blaen Fferam Moel Tryfan – Footpath 47 via Blaen Fferam Quarry

Adroddwyd gan Cyng. Eddie Willcox ei fod wedi cysylltu gyda Swyddog Mwynderau Cyngor Gwynedd ynglŷn â'r gwaith sydd wedi bod yn digwydd yn y chwarel ac sydd wedi achosi difrod i'r llwybr. 'Roedd hefyd wedi derbyn gwybodaeth trwy anfon cais Rhyddid Gwybodaeth (FOI) i Gyngor Gwynedd. O ganlyniad mae'r canlynol wedi dod i'r amlwg -

- Fod y cwmni wedi bod yn torri rheolau cynllunio - yn arbennig ar y maint o ddeunydd sydd wedi dod o'r chwarel dros gyfnod y drwydded.
- Cyngor Gwynedd yn ymwybodol o'r uchod ond heb weithredu"rhaid i bawb neud bywoliaeth" oedd safbwynt Cyngor Gwynedd. Trigolion y Fron ddim yn fodlon gyda'r agwedd.

Fodd bynnag mae wedi dod i'r amlwg fod y cwmni (Wynns Transport) sydd yn dal y drwydded wedi gadael y safle ers rhai wythnosau pellach.

Disgwylir i Gyngor Gwynedd sicrhau fod y llwybr yn cael ei adfer yn unol â thelerau'r hawl cynllunio.

Penderfynwyd derbyn y wybodaeth ac i'r Clerc gysylltu gyda Swyddogion Llwybrau Cyhoeddus a Swyddog Mwynderau Cyngor Gwynedd i sicrhau fod y llwybr yn cael ei adfer i'w gyflwr gwreiddiol

Resolved to note the information and for the Clerk to contact the Footpaths Officers and Mineral Officer of Gwynedd Council to ensure that the footpath is restored to its original condition.

18-07-11

Gwella Delwedd Dyffryn Nantlle a Cwynion am Ddiffyg Torri Glaswellt – Grass Cutting

Nodwyd y bu i Gyngor Gwynedd ohirio cyfarfod o Grŵp Gwella Delwedd oedd wedi ei drefnu ar 11 Gorffennaf 2018. Nodwyd dyddiad y cyfarfod nesaf sef 5 Medi 2018

Dywedodd y Clerc ei fod yn hynod o bwysig fod cynrychiolaeth o'r Cyngor hwn yn mynychu cyfarfodydd y Grŵp gan ei fod yn gyfle i ddod a'r cwynion canlynol i sylw Uwch swyddogion Adran Amgylchedd y Cyngor Sir yn benodol-

- cwynion am safon torri glaswellt yn y pentref
- diffyg torri glaswellt
- uchder gwair ar hyd ytr heolydd tu allan i ffiniau 30mya
- diffyg casglu'r glaswellt yn golygu fod draeniau yn blocio
- plastigion ar y strydoedd
- baw cwn - yn benodol diffyg warden yn patrolio, diffyg gwagio'r biniau.
- chwyn yn tyfu ar yr heolydd - ydi'r Cyngor Sir yn chwistrellu chwynladdwr far hyd ymylobn yr heolydd fel yr arferai wneud?
- Dim golwg o'r peiriant bach "sweeper" yn y pentrefi – ydi hwn yn doriad ar y gwasanaeth yr arferai cael ei wneud yn y pentrefi.

Croesawyd Cyng. Dilwyn Lloyd i'r cyfarfod i drafod y materion uchod. Diolchodd y Cadeirydd iddo am fynychu ar fyr rybudd -

Eglurodd DLI ei fod yntau wedi derbyn cwynion am y diffyg toriadau ac uchder y glaswellt ar hyd yr heolydd.

Hwn yn broblem ar draws y Sir.

Ddim yn rhoi argraff dda i ymwelwyr i'r ardal.

Lonydd yn beryglus gan fod glaswellt yn uchel iawn , dros 5 troedfedd mewn manau.

Cwynion wedi ei dderbyn ganddo o'r chwyn sydd yn tyfu ar y lonydd. Cyngor Gwynedd ddim i weld yn defnyddio chwynladdwr. Gwasanaeth y peiriant "sweeper" hefyd yn ymddangos wedi ei gwtogi - arferai ymweld â'r pentrefi yn rheolaidd i sgubo baw o ymylon yr heolydd.

Nodwyd fod Cyngor Gwynedd yn ymateb i gwynion os oes gwair uchel ymylon pob cyffordd gan fod hwn yn risg i gerbydau.

Wedi cael cadarnhad gan Adran y Prif Weithredwr fod yna raglen o dorri glaswellt tair gwaith y flwyddyn yn y pentrefi oddi fewn i ffiniau 30mya. Toriad cyntaf yn y Gwanwyn, yr ail yn yr Haf a'r trydydd yn Medi /Hydref. Amheuan os gwnaed toriadau yn y gymuned hon yn y Gwanwyn . Arbedion ariannol yw'r rheswm a roddir am y diffyg yn y gwasanaeth. Ofni'r bydd y sefyllfa yn gwaethgu cyn gwella gan fod yr Awdurdod angen darganfod, o bosib, £20miliwn pellach o 2019-20 a thu hwnt.

Sylwadau Aelodau

AWJ - yn gofyn pam nad yw aelodau'r Cyngor Sir yn pwysu ar Gabinet y Cyngor i gyflawni'r gwaith?

Ymateb DLI – yn sicrhau AWJ fod aelodau etholedig y Cyngor Sir yn pwysu ar y Swyddogion a aelodau Cabinet ond neb yn gwrando. Mae'r gyllideb wedi ei dorri a gwaethgu fydd y problemau cyn gwella.

DCD - cwynion nad yw Cyngor Gwynedd yn clirio'r glaswellt ar ôl cyflawni'r toriadau- o ganlyniad draeniau yn blocio

AP - yn amlwg nad yw adrannau CG ddim yn cyfathrebu a'i gilydd - costau uwch i wagio draeniau oherwydd un adran yn gadael i'r glaswellt blocio draeniau

GOJ - gwasanaeth wedi dirywio yn y pentrefi ond Treth Y Cyngor yn cynyddu uwchlaw chwyddiant yn flynyddol

DW – diffyg torri gwrychoedd yn broblem yn arbennig y ffordd i Dinas Dinlle.

EW - yn codi ar awgrym CG i'r Cyngorau Cymuned gyflogi gwardeiniaid. Angen ystyried sefydlu rhwydwaith o wirfoddolwyr - yn gwybod am rai fyddai'n fodlon gwirfoddoli yn y Fron.

Clerc - risg sylweddol i aelodau'r gymuned i wneud unrhyw waith gwirfoddol ar yr heolydd - gan na fyddai yswiriant y Cyngor Sir (na'r Cyngor Cymuned) yn gwarchod aelodau'r gymuned/ gwirfoddolwyr i gyflawni unrhyw waith har yr heolydd. Yn atgoffa'r aelodau fod y Cyngor Cymuned wedi cyflogi gweithwyr yn y gorffennol i gyflawni gwaith o glirio ffosydd ac yn y blaen. Wedi gofyn i Gyngor Gwynedd beth yw cost toriadau glaswellt ychwanegol petai'r Cyngor Cymuned yn ystyried toriadau ychwanegol. Dim ymateb hyd yma.

Penderfynwyd ar y canlynol

- i) Fod y Cyngor yn nodi'r wybodaeth gan ddod ar sylwadau uchod oll gerbron y cyfarfod nesaf o Ddelwedd Dyffryn Nantlle a gynhelir 5ed o Fedi 2018***
- ii) Fod y Cyngor yn ystyried y cwynion wrth lunio cyllideb 2019-20 law yn law gyda chanlyniad yr holiadur y bwriadir ei anfon i drigolion y gymuned.***

The following was resolved-

- i) That the Council note the information and to bring all the matters raised to the Group "Delwedd Dyffryn Nantlle" which will now take place on September 5th, 2018***
- ii) That the Council gives consideration to the concerns raised whilst drawing the 2019-20 budget together with the result of the public consultation.***

18-07-12 **Diffyg Safle Chwarae yn Y Groeslon / Lack of Playing Area In Groeslon**

Adroddwyd gan Cyng. Alun Wyn Jones fod cyfarfod wedi ei drefnu 19 o Orffennaf ar y safle ac fod Prif Weithredwr Cyngor Gwynedd yn mynychu.

Gobeithir y bydd datrusiad i'r sefyllfa o ganlyniad i'r cyfarfod

Penderfynwyd derbyn a nodi'r wybodaeth a monitro'r sefyllfa.
Resolved – to note the discussion and monitor the situation

18-07-13 **Hen Ysgol Carmel / Carmel Old School**

Siomedig oedd adrodd nad oedd cais cynllunio wedi cyrraedd. Sefyllfa ddim yn dderbyniol. Clerc l anfon llythyr l'r Swyddog Gorfodaeth i gwyno fod gan y Cyngor Sir ddyletswydd i sicrhau fod y perchnogion yn cyflwno cais cynllunio.

Penderfynwyd nodi'r wybodaeth a monitro'r sefyllfa.
Resolved to note the information and monitor the situation

18-07-14 **Llwybr Arfordirol Dinas Dinlle / Dinas Dinlle Coastal Footpath**

Adroddwyd gan y Clerc fod llythyr wedi ei anfon i Cyfoeth Naturiol Cymru. Dim ymateb hyd yma

Penderfynwyd nodi'r wybodaeth a monitro'r sefyllfa.
Resolved to note the information and monitor the situation

18-07-15 **7 Derbyn Cofnodion y Cyfarfod Panel Ymgysylltu a Gynhaliwyd 4 Gorffennaf 2018 fel Rhai Cywir / To Confirm the Minutes of the Consulting Panel held on 4 July 2018 as a True Record**

Awdurdodwyd y Cadeirydd gan y Cyngor i arwyddo'r cofnodion fel rhai cywir.

The Council authorised the Chairman to sign the minutes as a true record.

18-07-16 **8 Materion yn Codi o'r Cofnodion / Matters Arising from the Minutes**

Sylwadau Aelodau

AP – angen pwylllo gyda'r syniad o ddefnyddio Facebook

DW – yn cael ei ddefnyddio yn llwyddiannus iawn gan asiantaethau fel yr Heddlu a'r Cyngor Sir. Yn ddull i gyfleu newyddion positif.

Penderfynwyd derbyn argymhellion y Panel fel a ganlyn-

- i) Fod y Cyngor yn derbyn y briff fel y nodwyd.*
- ii) Fod y Cyngor rhoi hawl dirprwyedig i'r Panel symud ymlaen a derbyn un o'r prisiau yn amodol fod cyllideb ddigonol wedi ei adnabod gan y Pwyllgor Cyllid*
- iii) Fod y Cyngor yn gofyn i'r Panel gynnal cyfarfod cyn Cyngor Llawn Mis Medi gyda'r arbenigwyr i gadw'r momentwm a sicrhau fod yr holiaduron yn cael ei dosbarthu yn fuan yn nhyrnor yr Hydref.*

Resolved to accept the Panels Recommendation as follows-

- i) That the Council accepts the brief as noted.*
- ii) That the Council gives delegated power to the Panel for it to accept one of the estimates subject to funding being identified and being available by the Finance Committee.*
- iii) For the Panel to meet again before the September meeting of full Council so as to keep the momentum going in order for the questionnaire to be distributed early in the Autumn.*

18-07-17 **9 Derbyn Cofnodion y Cyfarfod o'r Pwyllgor Mynwentydd ac Asedau a Gynhaliwyd 5 Gorffennaf 2018 fel Rhai Cywir / To Confirm the Minutes of the Cemeteries & Assests Committee held on July 5th 2018 as a True Record**

Awdurdodwyd y Cadeirydd gan y Cyngor i arwyddo'r cofnodion fel rhai cywir.

The Council authorised the Chairman to sign the minutes as a true record.

18-07-18 **10 Materion yn Codi o'r Cofnodion / Matters Arising from the Minutes**

18-07-19 **Cae Chwarae Y Fron / Fron Football Field**

Penderfynwyd derbyn argymhellion y Panel fel a ganlyn-

- i) Fod y Cyngor yn derbyn rhesymau cyfarwyddwyr Canolfan y Fron i oedi rhag arwyddo'r brydles.*
- ii) Fod y Cyngor yn cynnwys yn y cytundeb cymal fod gan bawb yn y gymuned hawl mynediad i'r adnodd.*

Resolved to accept the Panels Recommendation as follows-

- i) For the Council to accept the delay by Canolfan Y Fron to in signing the lease for ownership of the land**
- ii) For the council to ensure that the lease agreement includes access to everyone in the Community.**

18-07-20

Llochesi Bws Diweddariad – Bus Shelters - Update

Sylwadau Aelodau –

EW – yn gwneud yr awgrym canlynol

the raised kerb sections to be used to aid access are away from the shelters. In Carmel the area to be marked needs assessing properly in relation to the length of the box, but it would be adjacent to the raised pavement prior to the garden car park. In Fron the raised section of the pavement is just passed the footpath next to the shelter. The Council could then move the Fron shelter back and in Carmel remove section of wall and then turn the shelter moving it forward. The kerbs for boarding then bus would then be 20 yds from the shelter making them similar to the positioning in Bontnewydd.

Penderfynwyd derbyn argymhellion y Pwyllgor fel a ganlyn-

- i) Fod y Cyngor yn gofyn i'r adeiladwr i dynnu'r giat**
- ii) Fod y Cyngor yn derbyn y wybodaeth ar gyfer lloches Parc Carmel**
- iii) Fod y Cyngor yn derbyn sylwadau'r Pwyllgor am loches Y Fron ac ymddiried yn y Pwyllgor i edrych ar fanteision a gwerth am arian trwy ei symud yn ol un troedfedd.**

Resolved to accept the Committes Recommendation as follows-

- i) That the Council agrees to remove the gate**
- ii) That the Council accepts the information as noted regarding the shelter located at the community garden in Carmel**
- iii) That the Council accepts the information as noted regarding the bus shelter in Fron and to rely on the Committee to assess the value for money by moving the shelter back.**

18-07-21

Profion Diogelwch Cerrig Beddi – Headstones Safety Checks

Penderfynwyd derbyn argymhellion y Pwyllgor fel a ganlyn-

- i) Fod y Cyngor yn cytuno i gynnal profion o gerrig beddi fynwent Llandwrog yn Hydref 2018 ac i hysbysebu yn y drefn arferol**
- ii) Fod y Cyngor yn cynnwys arolygiad o'r gwaith coed sydd wedi ei osod ar gerrig beddi a oedd yn rhydd ym mhroffion blaenorol**

Resolved to accept the Committees Recommendation as follows-

- i) For the Council to agree to undertake the inspection in October 2018 and to issue public notices in the usual manner**
- ii) For the Council to include inspection of the wooden stakes that were fixed in previous examinations on loose headstones**

18-07-22

Ffioedd Claddu – Burial Fees

Penderfynwyd derbyn argymhellion y Pwyllgor fel a ganlyn-

Fod y Cyngor yn ychwanegu'r cymal canlynol i'r Ffioedd Mynwentydd yn

os yw'r ymadawedig wedi byw yn y gymuned am gyfnod o 5 mlynedd ddi-dor ffi'r gymuned leol fydd yn berthnasol.

Resolved to accept the Committee's Recommendation as follows-

That the Council includes the following amendment to the Council's Burial Fees

If the deceased has lived in the community for 5 o'r more years unbroken then the community fee will be applicable

18-07-23 **11 Derbyn Cofnodion y Cyfarfod o 'r Pwyllgor Cyllid a Gynhaliwyd 12 Gorffennaf 2018**

Awdurdodwyd y Cadeirydd gan y Cyngor i arwyddo'r cofnodion fel rhai cywir.

The Council authorised the Chairman to sign the minutes as a true record.

18-07-24 **12 Materion yn Codi o'r Cofnodion / Matters Arising from the Minutes**

Penderfynwyd derbyn argymhellion y Pwyllgor fel a ganlyn-

- i) Fod y Cyngor yn derbyn cywirdeb y balansau fel a nodwyd isod*
- ii) Fod y Cyngor yn cytuno i drosglwyddo £2,000 ar gyfer Adroddiad Llochesi o'r balansau i'r gyllideb dan y pennwad "Datblygiadau 2018-19"*
- iii) Fod y Cyngor yn cytuno i drosglwyddo £1,467.24 sydd yn y balansau i'r gyllideb dan y pennawd "Datblygiadau 2018-19"*
- iv) Fod y Cyngor yn defnyddio rhodd CCSQ o £200 i gyfrannu at gorwariant lloches Cae'r Moel.*
- v) Fod y Cyngor yn cytuno i ariannu gorwariant lloches bws Cae'r Moel o £970 (gorwariant yn £1,170 llai £200) yn erbyn y pennawd "Datblygiadau 2018-19"*
- vi) Fod y Cyngor yn cytuno i gadw £7,497.24 ar y pennawd "datblygiadau" i ariannu yr isod mewn trefn blaenoriaeth -*
 - 1) gwaith ymgysylltu (uwchlaw swm o £1,500 sydd yn y gyllideb)*
 - 2) cyflog y Clerc wedi arfarnu y swydd ddisgrifiad*
 - 3) cynlluniau ar gyfer lloches bws Y Fron a Gardd y Coleg, Carmel*

Resolved – to accept the Committee's Recommendation as follows-

- i) That the Council accepts that the balances as noted are correct*
- ii) That the Council agrees to transfer £2,000 earmarked in the balances for Bus Shelter Reports to the 2018-19 Revenue Budget under the heading "Developments"*
- iii) That the Council agrees to transfer £1,467.24 from balances to the 2018-19 Revenue Budget under the heading "Development"*
- iv) That the Council earmarks the £200 received from CCSQ to contribute towards the overspend on the Cae'r Moel bus shelter.*
- v) That the Council agrees to finance the overspend on the Cae'r Moel bus shelter of £970 from the heading "Developments"*
- vi) That the Council agrees to keep £7,497.24 under the heading "Developments" to finance the following in priority order -*
 - 1) additional work on the consulting public with the process (beyond the £1,500 that is in the budget)*
 - 2) Clerks salary following the job evaluation*
 - 3) drawings for the Fron and Carmel (Community Garden) bus shelters*

Cysoniad y Banc i 30 Mehefin 2018 / Bank Reconciliation to 30 June 2018	
Balansau'r Banc i 30 Mehefin/June 2018 – Balances in the Bank	(£37,186.64)
- Llai Credydwy'r a Sieciau heb eu cyflwyno / Less Creditors & Unpresented Cheques	£10,898.48
+ Dyledwyr / Debtors	(£3,338.04)
Is-gyfanswm - Cyfanswm yr Arian ar 30 Mehefin 2018 / Sub Total	(£29,626.20)
+ Praesept heb gyrraedd (rhan 2) / Praesept as yet not received	(£24,000.00)
Is-gyfanswm / Sub Total	(£53,626.20)
- Gwariant ymrwymedig i 31/3/2019 / Committed Expenditure to 31 March 2019	£50,991.44)
+ Incwm heb gyrraedd i 31/3/2019/ Income due to 31 March 2019	(£3,365.24)
Is-gyfanswm / Sub Total	(£6,000.00)
- Llai Cronfeydd Penodol (£5,000 AWG Cronfa Adnewyddu Offer Cae Chwarae) / Less Specific Funds (£5,000 in rese £1,000 Playing Fields Renewal Fund)	£6,000.00
Cyfanswm Gor neu (Tan) wariant y rhagwelir i 31 Mawrth 2019 / Total Overspent (under) spend expected as at March 2019	(dim)

Cronfeydd y Cyngor ar 30 Mehefin 2018 / Specific Funds as at 30 June 2018	
Arian Wrth Gefn - Polisi'r Cyngor / General Reserve Fund	(£5,000.00)
Cronfa Adnewyddu Offer Caeau Chwarae / Playing Fields Renewal Fund	(£1,000.00)

18-07-25 **13 Materion a Godwyd gan Aelodau**

Cyng. Alun Wyn Jones

18-07-26 **Mainc Fynwent Bryn'rodyn**

Adroddwyd nad oes mainc yn y fynwent.

***Penderfynwyd cyfeirio y mater i'r Pwyllgor Mynwentydd ac Asedau
Resolved- to refer the matter to the Cemeteris & Assets Committee***

Cyng. Eddie Willcox

18-07-27 **Cofnodion Cyfarfod Blynyddol Grwp Datblygu Y Fron / Fron Development Grop
AGM**

Adroddwyd fod EW yn fodlon gyda cynnwys y cofnodion. Dim l'w drafod felly.
EW was satisfied with the minutes. Nothing to discuss

18-07-25 **14 Mater Arbennig – Urgent Matter**

Tan ar y Comin – Gorse Fires

'Roedd yr Aelodau yn awyddus trefnu cyfarfod o'r tan ddiweddar ar Fynydd y Cilgwyn gyda'r asiantaethau canlynol yn bresennol-

Y Frigâd Dan, Yr Heddlu, Parc Cenedlaethol Eryri (sydd yn rheoli'r tiroedd comin) Cymdeithas y Porwyr, Cyngor Gwynedd i adnabod y canlynol-

- Gwersi sydd i'w ddysgu o'r digwyddiad
- Rheoli gordyfiant ar y mynydd
- Gwarchod eiddo
- Gosod rhwystrau tan

***Penderfynwyd i'r Clerc drefnu cyfarfod yn ystod mis Medi 2018
Resolved - for the Clerk to arrange a meeting in September 2018***

Gohebiaeth / Communication Received

18-07-26 **15 Un Llais Cymru / One Voice Wales**

Y Cynhadledd Blynyddol 29 Medi 2018 / Annual Conference 29 September 2018

Cynhelir y cyfarfod blynyddol ar 29 Medi ar faes Sioe Frenhiniol Cymru, Llanelwedd i drafod dyfodol Cynghorau Cymuned.

***Penderfynwyd anfon un cynrychiolydd (Y Clerc neu'r Cadeirydd) ar gost oo £85.00 y pen.
Resolved – to send a representation from the Council***

18-07-27 **16 GDPR – Deddf Diolgelu Data 2018 / GDPR - Data Protection Act 2018**

Adroddwyd gan y Cadeeirydd ei fod yn ofyn statudol ar y Cyngor i addasu ei bolisiau i gyd-fynd ar Ddeddf newydd GDPR. Awgrym y Clerc oedd i'r Cyngor fabwysiadu polisi Cyngor Gwynedd ac ei addasu ar gyfer gofynion y Cyngor hwn

Penderfynwyd cyfeirio y mater i Panel Rheolau Sefydlog i'w ystyried law yn law gyda'r Model Rheolau Sefydlog a dderbyniwyd yn ddiweddar
Resolved – to refer the matter the Standing Order Panel for consideration.

18-07-28 **17 Ceisiadau Cynllunio / Planning Applications - Gorffennaf 2018 / July 2018**

18-07-29

Cais Rhif / Application Number - **C18/0496/17/CR**

Cyfeiriad / Address - **Eiryn, 7 Bedd Gwenan, Llandwrog, LL54 5LL**

Bwriad / Proposal - **Estriad llawrcyntaf ar flaen yr eiddo / First floor extension on front of property.**

Penderfyniad y Cyngor – dim gwrthwynebiad
Council Decision – no objection

18-07-30

Cais Rhif / Application Number - **C17/0811/17/LL**

Cyfeiriad / Address - **Maes Hyfryd, Carmel LL54 7RS**

Bwriad / Proposal - **Codi ty deulawr gromen a modurdy / Erect two story dormer dwelling and garage**

Cyng. Alan Patterson wedi dangos buddiant ar y cais hwn, gan fod y cais wedi ei gyflwyno gan aelod o'i deulu. Fodd bynnag gan fod hwn yn ail gais cynllunio ar y safle gofynnwyd iddo aros yn yr ystafell i egluro i aelodau beth oedd yn wahanol i'r cais hwn i'r cais blaenorol. Ni chymerodd ran yn y penderfyniad

Penderfyniad y Cyngor – dim gwrthwynebiad
Council Decision – no objection

18-07-31

Cais Rhif / Application Number - **C18/0497/17/LL**

Cyfeiriad / Address - **Bryn Afon, Y Groeslon LL54 7DN**

Bwriad / Proposal - **Cais llawn i greu ardal marchogaeth pob tywydd / Full application for the creation of an all weather riding area**

Penderfyniad y Cyngor – dim gwrthwynebiad
Council Decision – no objection

18-07-32

Cais Rhif / Application Number - **C18/0554/17/LL**

Cyfeiriad / Address - **Tyddyn Meinsier, Y Groeslon LL54 7TU**

Bwriad / Proposal - **Codi estyniad unllawr ar flaen yr eiddo/ Construction of a single storey extension on front of property**

Penderfyniad y Cyngor – dim gwrthwynebiad
Council Decision – no objection

18-07-33

Cais Rhif / Application Number - **C18/0612/17/LL**

Cyfeiriad / Address - **Mardir, 5 Lon Bryn, Y Groeslon LL54 7SU**

Bwriad / Proposal - **Cais ar gyfer dymchwel estyniadau to fflat presennol a chodi estyniad deulawr ar ochr yr eiddo ac estyniad unllawr o flaen yr yr eiddo/ Application to demolish existing flat roof extension and to build a two storey side extension and one storey front extension on the property.**

Penderfyniad y Cyngor – dim gwrthwynebiad

Materion Ariannol / Financial Matters

18-07-34 **18 Derbyniadau Wedi ei Dderbyn Mehefin 2018 – Income Received June 2018**

Manylion / Details	Cyfanswm
Rhodd gan CCSQ ar gyfer gwaith llochesi bws	£200.00

*Penderfynwyd derbyn y wybodaeth .
Resolved to accept the information*

18-07-35 **19 Taliadau sydd angen eu hawdurdodi gan y Cyngor - Payments to be approved**

Manylion / Details	Swm heb TAW Amount excluding VAT	Cyfanswm y Taliad- Total Payment	Rhif Siec/ Cheque Number
Cyflog y Clerc – Gorffennaf 2018 – Clerks Salary July 2018	£429.51	£429.51	Uniongyrchol/Direct
HMRC-Treth Incwm Gorffennaf 2018– Income July 2018	£113.40	£113.40	Uniongyrchol/Direct
Lwfans Clerc– Gorffennaf 2018– Clerks Allowance July 2018	£24.00	£24.00	Uniongyrchol/Direct
Viking Direct – Argraffydd/ Printer	£251.96	£302.35	101818
Huw Roberts – Cyfieuthu Panel a cyfarfod Gorffennaf 2018	£108.00	£108.00	101819
Ifan E Williams- Torri gwair mynwentydd Mawrth 2018	£590.00	£708.00	101820
Ifan E Williams – Gwagio Binau Mawrth 2018	£200.00	£240.00	101820
W J Mathews - Archwilio Cyfrifon – Internal Audit Fees	£250.00	£300.00	101821
Clerks & Councils Direct – Tanysgrifiad/Subscription	£60.00	£60.00	101822
Elfyn Ellis Adeiladwr – Lloches Bws Cae'r Moel	£6,770.00	£8,124.00	101823
R T Hughes Pensaer – Gwaith Lloches Bws Cae'r Moel	£500.00	£500.00	101824
Un Llais Cymru – Cynhadledd Blynyddol/Annual Conference	£85.00	£85.00	101825
Swyddfa'r Post - Stamps	£50.00	£50.00	101826
Designer Signs – Arwyddion Cae Pel dreod	£150.00	£180.00	101827
Ifan E Williams – Gwaith clirio coed fynwent Llandwrog	£150.00	£180.00	101828

*Penderfynwyd derbyn y wybodaeth a rhoddwyd yr awdurdod i'r Clerc i ryddhau'r oll daliadau.
Resolved to accept the information and to authorise the Clerk to release all the payments*

18-07-36 **20 Materion i'w Codi gan aelodau i gyfarfod nesaf o'r Cyngor llawn / matters to be raised by Members for the Next Meeting (17 Medi 2018 / 18 September 2018)**

Cyng. Alun Wyn Jones –

Ffoes Brynrhos lawr i Teras Dyffryn

Cyng. Gerwyn Owen

Diffyg gwagio binau cwn. Gofyn beth yw amserlen CG I wagio y binau. Bin Penbonc, Groeslon yn llawn.

Diffyg ganhau dreiniau

18-07-37 **21 Dyddiadau Cyfarfod Nesaf / Dates of Next Meetings**

Cyfarfod / Meeting – **Cyngor Llawn Mis Medi / September Full council**

Dyddiad / Date - Dydd Llun 17 Medi 2018 / Monday 17 September 2018

Amser / Time - 7.30 yr hwyr

Lleoliad / Venue Neuadd – Canolfan y Fron – i'w gadarnhau / to be confirmed

Cyfarfod / Meeting – Gweithgor y Clerc / Clerks Panel

Dyddiad / Date - yn ystod Gorffennaf / Awst - i'w gadarngau / to be confirmed

Amser / Time am

Lleoliad / Venue -

Cyfarfod / Meeting – Panel Ymgysylltu Consulting Panel

Dyddiad / Date - cyn Cyngor llawn 17 Medi – i'w gadarnhau / to be confirmed

Amser / Time am

Lleoliad / Venue -

Cyfarfod / Meeting – Panel Rheolau Sefydlog / Standing Orders Panel

Dyddiad / Date - yn ystod Gorffennaf / Awst - i'w gadarnhau / to be decided

Amser / Time -

Lleoliad / Venue –

Daeth y cyfarfod i ben am 9.10 yr hwyr / The meeting ended 9:10 pm

Cafwyd y Cofnodion yn rhai cywir – The Minutes were recorded as accurate

Arwyddwyd gan Gadeirydd y Cyngor

Signed by the Chairmam

Dyddiad - Date